Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# IL Cymdeithasau a Chymunedau

## Y Rôl:

Mae Is-lywydd Cymdeithasau a Chymunedau yn cael ei ethol i gyfrannu at gynrychiolaeth pob myfyriwr ar draws pob ysgol, lefel a math o astudiaeth. Maent yn arwain ac yn hyrwyddo cymdeithasau myfyrwyr, gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr a chymunedau myfyrwyr o fewn Undeb y Myfyrwyr. Mae hon yn swydd amser llawn, â thâl. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus naill ai'n cymryd blwyddyn allan o astudio neu'n ymgymryd â'r rôl ar ôl graddio.

Mae'r rôl yn un gyflym, amrywiol, a chydweithredol. Byddwch yn gweithio gyda chyd-swyddogion, staff y brifysgol, a myfyrwyr i ddeall a gwella profiad myfyrwyr. **Mae'r rôl yn gofyn am broffesiynoldeb, gwydnwch, a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol, gwrando ar eraill, a sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ar bob lefel.**

## Fel IL Cymdeithasau a Chymunedau, byddwch chi yn:

| | |
|---|---|
| **CYNRYCHIOLI** | pob myfyriwr a dysgwyr ar faterion academaidd a phrofiad myfyrwyr ar draws pwyllgorau a fforymau'r Brifysgol. |
| **CYFRANNU** | at gyfeiriad a llywodraethu cyffredinol yr Undeb fel Ymddiriedolwr, gan gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd a gweithio ar faterion y tu hwnt i'ch cylch gwaith unigol pan fo angen. |
| **YMGYSYLLTU** | gyda myfyrwyr drwy grwpiau a chymunedau myfyrwyr i ddeall eu hanghenion ac adlewyrchu eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau |
| **CYDWEITHIO** | gydag arweinwyr cymdeithasau, aelodau o gymunedau myfyrwyr, gwasanaethau dan arweiniad myfyrwyr a staff UM i ymateb i faterion myfyrwyr sy'n dod i'r amlwg a gwella bywyd academaidd |
| **CYNNAL** | prosesau democrataidd yr Undeb drwy gyflawni mandadau polisi a gweithio'n agos gyda Senedd y Myfyrwyr a'ch Pwyllgor Gwaith |
| **YMGYRCHU** | ar faterion allweddol sy'n effeithio ar brofiad myfyrwyr, o les a pherthyn, i gydraddoldeb ac amrywiaeth |
| **HERIO** | a dwyn y Brifysgol i gyfrif gan roi buddiannau myfyrwyr yn gyntaf |
| **CYMRYD PERCHNOGAETH** | o ymrwymiadau eich maniffesto a gweithio'n rhagweithiol i'w cyflawni drwy gydol y flwyddyn |
| **GWEITHIO** | fel rhan o Dîm Swyddogion ehangach, gan gyfrannu at flaenoriaethau, ymgyrchoedd a digwyddiadau ar y cyd sy'n fuddiol i bob myfyriwr |

## Wythnos Arferol

Byddwch yn treulio amser yn mynychu cyfarfodydd, yn siarad â myfyrwyr, yn ysgrifennu adroddiadau neu ddatganiadau, ac yn cynllunio ymgyrchoedd. Byddwch hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddogion eraill a staff Undeb Myfyrwyr i rannu diweddariadau a chytuno ar flaenoriaethau ar y cyd. Rhai o'ch cyfrifoldebau rheolaidd:

- Cyfarfod â staff y Brifysgol i ddatrys problem myfyrwyr neu godi pryderon
- Cynnal digwyddiad gwrando neu sesiwn galw heibio i glywed gan fyfyrwyr

- Cyfarfod ag aelodau Pwyllgor Cymdeithasau i ddarganfod sut y gellir eu cefnogi
- Cydweithio ar ymgyrch neu fenter draws-gampws

| Sgiliau y byddwch chi'n eu datblygu: | Cyfleoedd a manteision: |
|---|---|
| • Ymgyrchu ac ymgysylltu gwleidyddol<br>• Rheoli amser a llwyth gwaith<br>• Sgiliau trefnu a chynllunio<br>• Gwaith tîm a chydweithio<br>• Dylunio a chyflawni prosiectau<br>• Negodi a diplomyddiaeth<br>• Rhwydweithio a dylanwad rhanddeiliaid<br>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd | • Swydd llawn amser, â thâl gyda gwyliau blynyddol a mynediad at fuddion staff UMC<br>• Hyfforddiant a mentora mewnol gan staff yr UM<br>• Datblygiad proffesiynol a chefnogaeth un-i-un<br>• Profiad unigryw mewn llywodraethu, arweinyddiaeth a dylanwad<br>• Cyfle i lunio newid go iawn ar y lefel uchaf yn UM a'r Brifysgol<br>• Ychwanegiad nodedig at eich CV a datblygiad gyrfa<br>• Adeiladu rhwydweithiau parhaol yn lleol ac yn genedlaethol |

## Disgwyliadau

Mae hon yn rôl arweinyddiaeth sy'n gofyn am gyfrifoldeb, cysondeb a gwaith tîm. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Cynnal presenoldeb cyson a phroffesiynol drwy gydol yr wythnos waith, gan ymroi'n llawn i gyfarfodydd, prosiectau a chyfrifoldebau tîm, a chymryd dull gweithredol ac ymarferol o gyflawni'r rôl
- Cyfathrebu a chydweithio'n effeithiol â myfyrwyr, staff UM, rhanddeiliaid y Brifysgol a phartneriaid allanol
- Gweithio'n broffesiynol: mynychu cyfarfodydd, cynllunio gwaith, dilyn camau gweithredu a chwrdd â therfynau amser
- Rheoli gofynion cystadleuol, addasu'n gyflym i newid, a chynnal gwydnwch mewn amgylchedd cyflym ac yn aml yn adweithiol
- Cynnal gwerthoedd a chod ymddygiad yr UM bob amser
- Cymryd rhan ym mhob proses atebolrwydd ac adolygu berthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r Panel Atebolrwydd (a gynhelir dair gwaith y flwyddyn)
- Cyflawni eich ymrwymiadau maniffesto a gweithio i weithredu polisi a basiwyd gan fyfyrwyr

Darperir cefnogaeth lawn drwy strwythur cefnogi swyddogion yr UM, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda'ch cyswllt staff, cyfaill SMT, a thimau mewnol yr UM.

## Cymhwysedd

I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Caerdydd neu'n Swyddog Sabothol presennol ar ddiwedd y cyfnod enwebu. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus

naill ai'n cymryd blwyddyn allan o astudio neu'n ymgymryd â'r rôl ar ôl graddio.

I fod yn gymwys rhaid i bob ymgeisydd hefyd basio'r polisi 'Addas i Sefyll'. Mae hyn yn golygu nad oes gan ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad, hyd y gwyddant ac ar adeg cau'r enwebiadau, unrhyw ymchwiliadau presennol na chwynion blaenorol wedi'u cadarnhau yn eu herbyn mewn materion sy'n ymwneud â chamymddwyn rhywiol, ymddygiad rhywiol amhriodol, cam-drin perthynas a pherthnasoedd afiach, ymosodiad rhywiol, trais rhywiol, trais, cam-drin, aflonyddu, bwlio, troseddau casineb, ymddygiad troseddol, ymosodiad corfforol, neu wahaniaethu. Ni fydd unrhyw fyfyrwyr sy'n methu â chadarnhau eu bod yn 'addas i sefyll' yn gymwys i sefyll yn yr etholiad.

## Sut i enwebu:

- Enwebwch eich hun yma.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr yma.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk.